BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 18, 2025

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Tachwedd 18, 2025 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts. Llion Williams, Aaron Roberts. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:**

Peredur Jenkins, Robin Jones, Meurig Ashton, Karen Goswell.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 21, 2025**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 21, 2025**

Eitem 5. Eitem 5. Eitem 6.b.
Anfonwyd (22/10/2025) llythyr i'r aelodau yn atgoffa nhw:
Hysbysfwrdd yn Brithdir - ei osod ar wal y Neuadd wrth ymyl y diffibriliwr
Hysbysfwrdd yn Rhydymain - ei osod yn lle yr un bresennol. Cael gwared â'r hen hysbysfwrdd.
Mainc - ei osod yn Top Torrent
Mainc - ei osod rhwng bin a phostyn 'hydrant' ar dir Hengaer.
Mainc - ei osod wrth Neuadd Llanfachreth
Mainc - ei osod wrth Neuadd Rhydymain.
Bydd angen gosod sticer logo SPF a Chyngor Gwynedd ar y dodrefn.

Anfonwyd (23/10/2025) llythyr Panel Warehouse yn rhoi gwybodaeth sut i roi yr hysbysfwrdd yn y ddaear.

Derbyniwyd neges (24/10/2025) gan Rhun yn rhoi gwybod bod yr hysbysfyrddau wedi cyrraedd.
Anfonwyd y neges i'r aelodau gan ychwanegu mae £728.54 yn weddill i wario os mae angen.

Llythyr (21/10/2025) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd £3,278.00 yn ein cyfrif o fewn 3 diwrnod tuag at y grant am yr hysbysfyrddau a meinciau. Nid yw'r swm yn cynwys TAW; y ni fydd yn rhoi claim i HM Revenue and Customs am y TAW sef £655.64. Roedd ein cais yn gofyn am £3,933.86 am y dodrefn. Cafwyd gwybod (13/10/2025) gan Swyddog Adfywio Trefi ynglŷn â grant 'Gwynedd Ni' bydd £728.54 yn weddill i wario.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Swyddog Adfywio Trefi i gael £500 tuag at gostau i gael sylfaeni i'r meinciau.

Anfonwyd llythyr (3/11/2025) i'r aelodau yn dweud bod y 4 mainc wedi cyrraedd Wynnstay ac iddynt eu nôl a'u gosod yn eu lle.

Llythyr (1/11/2025) oddi wrth Robin i'r aelodau yn rhoi gwybod bod hysbysfwrdd wedi cael ei roi yn ei le yn Rhydymain. Gyda'r llythyr roedd Llun yn dangos yr hysbysfwrdd. Cafodd yr hen hysbysfwrdd ei symud o'r safle.

Llythyr a llun (7/11/2025) oddi wrth Robin i'r aelodau yn dangos mainc yn ei le wrth Neuadd Rhydymain.

Llythyr (14/11/2025) oddi wrth Rhun yn rhoi gwybod ddaru Aaron nôl a gosod y meinciau yn eu lle. Ac roedd Rhun ac Elwyn (gwr Eira Humphreys) am osod yr hysbysfwrdd ar wal Neuadd Brithdir ar 16/11/2025.

Llythyr (16/11/2025) a lluniau oddi wrth Rhun yn rhoi gwybod mae'r fainc ar Top Torrent ac yn Brithdir yn eu lle a hefyd yr hysbysfwrdd ar wal Neuadd Brithdir. Yn eu gosod oedd Rhun, Elwyn ac Eira.

Llythyr (16/11/2025) a llun oddi wrth Gerallt o'r fainc cafodd ei osod gan Llion wrth Neuadd Llanfachreth.

Nodyn (17/11/2025) oddi wrth Robin yn rhoi gwybod mi fydd yn rhoi dwy bolt i ddal y fainc yn Rhydymain.

## 6. Gohebiaeth

a. Llythyr (21/10/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud yn Brithdir a Llanfachreth gan Tim Tacluso Ni yn 3 – 7/11/2025. Hefyd bydd gwaith atgyweirio canllaw Pont Tyddyn Mawr, newid tua 20 o fyrddau dec a thorri 60m o lystyfiant sydd ar Lwybr 4 a Llwybr Ceffyl 13 yn Abergeirw.

b. Llythyr (24/10/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd 21/10/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

c. Llythyr (30/10/2025) oddi wrth Mr Dyfrig Siencyn yn rhoi gwybod mae ganddo ddogfennau hanesyddol y Cyngor sy'n mynd yn ôl i 1894 ac yn awgrymu y dylid trosglwyddo'r holl ddogfennau i Archifydd yn Nolgellau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

O ymateb yr aelodau dylid y dogfennau cael eu rhoi i'r Archifydd. Rhoddwyd gwybod i Dyfrig (31/10/2025) iddo fynd a'r dogfennau i'r Archifydd. Roedd Dyfrig yn glerc ar Gyngor Cymuned Llanfachreth rhwng 1975 – 1979.

ch. Llythyr (17/11/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar nos Fercher, 21/1/2026 rhwng 6.00 ac 8.00yh. Maent angen un cynghorydd i gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod a gadael gwybod Un Llais Cymru yr enw. Bydd ddolen i'r cyfarfod rhithiol yn cael ei gael yn nes at y dyddiad y cyfarfod. Amgáu mae Agenda, Cyfansoddiad a Chynigion ar gyfer y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

## 7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (14/11/2025) am ddiweddariad ar broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Maent angen barn trigolion ar faterion polisi cynllunio allweddol yr ardal ac mae linc i'r holiadur sydd angen ei lenwi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 8. Materion Ariannol

a. Bil (23/10/2025) am £2,040.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd am agor ffos a gosod colofn golau stryd newydd ar gyfer Neuadd Bentref Rhydymain.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Llythyr (30/10/2025) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (13/11/2025) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Bil (12/11/2025) am £2,340.00 oddi wrth A.M. Ashton am dorri llwybrau y gymuned (£2,250) ac am dorri a chlirio tyfiant o amgylch y pedwar lloches bws (£90.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/10/2025: £161.53.
Balans yn y banc ar 29/10/2025: £14,031.32

**9. Archwilio**

a. Llythyr (13/11/2025) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys hysbysiad cwblhau archwiliad, copi o'r Ffurflen Blynyddol 2024-25.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

Mae'r llythyr yn rhoi gwybod ni ddylwn anfon llythyr camdriniol atynt yn y dyfodol. Roeddynt yn cyfeirio at fy e-bost dyddiedig 18/8/2025 oedd yn cynnwys:

1. 'Ni dderbyniais unrhyw gyfathrebiad oddi wrthych parthed GPOC ac nid oes gan y Cyngor unrhyw wybodaeth amdano'.
2. 'Mae eich sylwadau a'ch gofynion yn hollol ddiangen ac yn gwneud i mi a'r cynghorwyr ail ystyried gwerth y swydd'.

Gweler Cofnodion Medi 16, 2025.

Yn y Ffurflen Blynyddol 2024-25 mae Adroddiad Archwilio Cymru yn rhoi gwybod

1. nid oes unrhyw faterion yn codi sy'n achosi pryder i'r archwilydd.
2. mae angen i'r Cyngor cael gwybod ni roddwyd ateb cywir i eitem 10 yn y Datganiad, sef mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Maent yn argymell y Cyngor i ofalu bod y Datganiadau yn gywir. (Nid yw'r sylw yn affeithio ar farn yr archwilydd, sef 1.).

Mae'r hysbysiad cwblhau archwiliad yn rhoi gwybod bod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod y Ffurflen Flynyddol ar gael i'w archwilio gan etholwyr llywodraeth leol. Bydd yr hysbysiad ar ein gwefan a hysbysfyrddau ar 23/11/2025 ac ei arddangos am gyfnod o leiaf 14 diwrnod.

**10. Materion yr Aelodau**

a. Cais (10/11/2025) gan Llion i ni wneud ymoliadau gydag Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw'r diweddaraf dymuniad y Cyngor Cymuned i Gyngor Gwynedd drosglwyddo'r cae chwarae gyferbyn a'r ysgol i'r cyngor cymuned. Mae'r mater yma wedi mynd ymlaen ers 2019.

<u>Penderfynwyd</u> gofyn i Lowri Cadwaladr yr Adran beth yw'r diweddaraf i drosglwyddo'r cae chwarae. Amgaewyd copi o'r e-bost anfonwyd iddi ar 22/3/2019 ynglŷn â'r mater.

b. Cais (14/11/2025) oddi wrth Rhun yn rhoi gwybod mae angen agor cwter sydd rhwng Capel Brithdir a Hafod yr Hael. Mae pwll reit fawr yno wedi glaw.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (14/11/2025).

c. Cais (14/11/20250 oddi wrth Emlyn yn rhoi gwybod mae canghenau yn rhydd ac yn isel dros y ffordd rhwng Bryngwern a chroesffordd Nantcnidiw. Mae'r canghenau yn beryglus i ddefnyddiwyr y ffordd.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (14/11/2025).

ch. Awgrymodd Henry i'r aelodau gwneud ymoliadau am gael Clerc newydd. Mae Henry yn dymuno ymddeol fel Clerc.

**<u>11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths</u>**

1. Lamp Capel Brithdir – cais wedi dod gan Aelodau yn y Capel gan fod y lleoliad yn dywyll iawn amser Capel ar nos Sul yn y gaeaf. – Rwyf wedi cysylltu gydag Adran Golau Stryd i asesu'r sefyllfa.

2. Bin Halen. Bin Halen yn ardal Gernant a Rhiw Wern Gawr . Rhydymain - Er bod Henry wedi gofyn eto am un yn y lleoliad yma, nid oes ateb wedi dod at y Cyngor. Gofynnwyd i Delyth wneud cais i Adran Priffyrdd yn uniongyrchol gan ofyn fod y mater yn cael sylw brys gan fod hi ym mis Tachwedd erbyn hyn.

3. Wifi yn deillio o droi mast Coed y Brenin.
Er bod un ochr o bentref Llanfachreth wedi gweld gwell signal ffon, nid yw wedi gwella'r signal ym mhob ardal Llanfachreth. Mae y Gwasanaeth yma wedi gwella y signal argyfwng ychydig ar gyfer rhai yn defnyddio Gwasanaeth EE.

4. Coed Stad y Nannau yn dal i greu problemau gan neu fod yn aml yn syrthio ar y ffordd fawr yn creu sefyllfa lle mae y bws Ysgol a gwasanaethau eraill yn medru cael eu cynnal. Mae Cwmni Baileys yn gyfrifol am ochr amaeth yr ystâd. Hyderaf fod coed yn dod o dan ochr amaeth y Gwasanaeth asiant cyfrifol.
Roedd Aelodau y Cyngor yn dweud fod y dull o dorri'r coed wedi creu sefyllfa lle mae y cael gwannaf yn cael ei gadael heb orchudd ac felly yn debygol o gael ei effeithio yn ddrwg mewn wynt cryf.
Dwi ddim yn gweld datrysiad i'r sefyllfa yma ac yn obeithiol y bydd ddim damwain difrifol lle mae bywyd yn y fantol.

5. Llanfachreth - Gwaith Adra
Dwy gais wedi ei wneud i Adra parthed: ffos wrth ymyl Tai Henoed Llan a choeden beryg o flaen Tai Derwen Deg.

6. Mae Gerallt yn gwneud ymchwil lleol ynglŷn â Signal Ffôn 5G yn Llanfachreth ac mae Delyth wedi bod mewn cysylltiad â Bwrdd Uchelgais Cymru ynglŷn â'r mater.

Llofnod: Dyddiad: